# SL(6)374 – Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion

## Cefndir a diben

Mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a gyhoeddwyd yn 2013 wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023") a ddaeth i rym ar 3 Mai 2023

Fe wnaeth Rheoliadau 2023 ddiwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") er mwyn cynnwys opsiwn i apelau derbyn gael eu cynnal o bell, yn ogystal ag yn bersonol, neu drwy gymysgedd o'r ddau. Maent yn codio rhai trefniadau dros dro a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws.

Mae Rheoliadau 2023 yn gymwys i'r ddau fath o wrandawiad apêl derbyn yr ymdrinnir â hwy o dan Reoliadau 2005, hynny yw apelau yn erbyn penderfyniad awdurdod derbyn i wrthod derbyn plentyn ac apelau gan gyrff llywodraethu yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol i dderbyn i'w hysgol blentyn sydd wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor.

Mae'r Cod hwn hefyd yn cynnwys rhai diwygiadau technegol sy'n adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ers i'r Cod blaenorol gael ei gyhoeddi yn 2013.

Er gwybodaeth, gosodwyd y Cod hwn yn gyntaf ar 10 Mai 2023. Nododd adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a ddosbarthwyd ar 17 Mai 2023 nifer sylweddol o wallau yn yr offeryn, a chafodd y Cod ei dynnu'n ôl wedyn gan Lywodraeth Cymru ar 26 Mai 2023. Cafodd ei ailosod ar 7 Awst 2023.

## Y weithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft).

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Cod hwn.

1. Ym mharagraff 3.3, mae datganiad ynghylch pobl "... *sydd â phrofiad yn cynnal ymchwiliadau neu wrandawiadau disgyblu.*" [***pwyslais wedi'i ychwanegu***]. O ystyried y cyd-destun, mae'n ymddangos y dylai gyfeirio at "**y**mholiadau" yn hytrach nag "**y**mchwiliadau". Ategir yr asesiad hwn gan y ffaith bod y datganiad, yn y testun Cymraeg, yn cyfeirio at "*ymchwiliadau*" yn hytrach nag "*ymholiadau*" trwy ddefnyddio'r gair "*ymchwiliadau*" yn hytrach nag "*ymholiadau*".

2. Ym mharagraff 4.23, mae datganiad mewn cromfachau ynghylch yr apelwyr yn ildio'u "*hawl i* ***gyfnod rhybudd 14 diwrnod*** *ynglŷn â'u hapêl*" ac yna cyfeiriad at y paragraff sy'n nodi'r hawl honno i gyfnod rhybudd (paragraff 4.4). Fodd bynnag, mae paragraff 4.4 yn darparu bod yn rhaid *"rhoi o leiaf* ***10 diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig*** *i apelwyr ynglŷn â dyddiad y gwrandawiad apêl"*. Mae'r anghysondeb hwn yn debygol o achosi dryswch i'r darllenydd, ac felly dylid diwygio paragraff 4.23 i gyfeirio'n gywir at yr hyn a nodir ym mharagraff 4.4.

3. Ym mharagraff 7.3, yn y testun Cymraeg, efallai y byddai'n fwy priodol defnyddio term gwahanol fel "*cyflwyno"* ar gyfer y cyfieithiad o *"gofrestru"*. Mae'r term presennol, "*cofrestru*", yn awgrymu na ddylai'r dyddiad y bydd y panel apêl yn cyfarfod fod yn hwyrach na'r 15fed diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod pan **gofrestrir** yr apêl yn hytrach na'r diwrnod y caiff ei gyflwyno neu ei dderbyn.

4. Yn Atodiad A, ym mharagraff A.20, yn y testun Cymraeg, mae'r geiriau "*fel disgybl*" ar goll o'r cyfieithiad o'r frawddeg "***derbyn plentyn fel disgybl****"* [***pwyslais wedi'i ychwanegu***].

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Awst 2023**